# 13eg Cyfarfod Grŵp Ecosystemau Arfordirol (GEA) Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC), Mehefin 26ain 2015
# Cwm Ivy Lodge, Gŵyr

**Yn bresennol**: Angus Garbutt Cadeirydd (Y Ganolfan ar gyfer Ecoleg a Hydroleg); Emmer Litt (CNC); Sean McHugh (PBC); Julie Creer (CNC); Alan–Kearsley Evans (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol); Mark Winder (CBS Abertawe); Simeon Jones (Cyngor Sir Gaerfyrddin); Deborah Sazer (Ymgynghorydd Amgylcheddol/CBS Abertawe)

**Ymddiheuriadau**: Heather Lewis (CNC); Nick Edwards (CNC); Olivia Burgess (Stadau'r Goron); Mark Underhill (WEL/RSPB Cymru); Martin Skov (Prifysgol Bangor); Sarah Mellor (APC Arfordir Penfro); Jenni Hartley (Llywodraeth Cymru); Chris Wynne (Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru); Duncan Ludlow (CNC); Shelagh Malham (Prifysgol Bangor); Mike Howe (CNC).

1. **Cyflwyniad**

   Croesawodd Angus bawb i'r cyfarfod. Y prif ffocws heddiw yw'r ymweliad maes i weld wal y môr wedi torri yng Nghwm Ivy. Bydd yr eitemau gweithredol (cynllun gwaith/aelodaeth/camau gweithredu'r Cadeirydd) yn cael eu gohirio tan gyfarfod yr hydref. Angus yw cadeirydd newydd y GEA ac mae'n cymryd yr awenau gan Mike Howe ac Emmer Litt, a weithredodd fel cadeiryddion dros dro nes penodwyd cadeirydd parhaol. Diolchodd y grŵp i Mike ac Emmer am lywio'r grŵp yn ystod y cyfnod o bontio. Mae'r grŵp mewn cyfnod pontio o ran nad yw Panelau Cyllido REF yn weithredol ac ni chymerodd y grwpiau ecosystemau ran yn y panel Cyllid Natur (er eu bod wedi mynychu gweithdai i geisio dod â phartneriaid prosiect posib at ei gilydd). Mae Bwrdd Strategaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru'n cynllunio strwythur llywodraethu a ffurf gyffredinol y 'grwpiau' yn y strwythur. Yn y cyfamser, cynrychiolir y GEA yng Nghyfarfod Cadeiryddion PBC, sy'n dod â'r holl gadeiryddion ecosystemau a'r holl gadeiryddion arbenigwyr ar rywogaethau at ei gilydd.

2. Bylchau Tystiolaeth

   Galwodd Angus ar y grŵp i weithio gyda'r prosiect, sydd â lefel uchel o gefnogaeth a lansiad proffil uchel. Mae potensial i gau bylchau tystiolaeth ar lefel leol drwodd i lefel strategol. Croesewir prosiectau israddedig a hefyd prosiectau sydd â ffocws strategol. Rhestrir y manylion ar wefan PBC, ble ceir ffurflen ar gyfer prosiectau posib. Bydd angen rhoi sylw i flaenoriaethu'r bylchau tystiolaeth sydd wedi'u datgan gan y GEA a gallai'r cynrychiolwyr academaidd yn y grŵp arwain ar hyn. Hefyd gallai'r GEA ddewis cynrychiolydd academaidd o bob prifysgol i annog mwy o ymgysylltu. Trafododd y grŵp y prosiect cyffredinol a bydd yn awgrymu prosiectau. Roeddent o blaid 'cadw pethau'n syml'. Roedd consensws ymhlith aelodau'r grŵp a oedd yn bresennol bod angen prosiectau monitro llinell sylfaen yn benodol ar gyfer rhai systemau a lleoliadau, sy'n ychwanegu at y sylfaen wybodaeth ac yn darparu tystiolaeth. Mae gan gyllid LlC ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth botensial i gynnwys monitro, a chafodd ei grybwyll hefyd. Bydd manylion yn cael eu hanfon i'r GEA pan fyddant ar gael.

3. **Diweddariadau Grŵp**

   Mark Winder, Dinas a Sir Abertawe. Mae CGBLl Abertawe'n ailysgrifennu'r HAPS a'r SAPS arfordirol ar hyn o bryd. Mae prosiect mawr i gael gwared ar greigafal ar fin cael ei gwblhau ar

Arfordir Gŵyr (cyllid REF) gyda chyfradd lwyddiant dda, a bydd yn annog planhigion ac anifeiliaid i sefydlu ar y safleoedd sydd wedi'u clirio. Bydd gwaith monitro'n cael ei wneud yn awr a thriniaeth ychwanegol – does neb yn gwybod faint o'r creigafal fydd yn dychwelyd. Crybwyllodd Julie astudiaeth ar y Gogarth a allai helpu a bydd yn anfon y manylion at Alan/Mark.

Mae'r lagŵn llanwol arfaethedig ym Mae Abertawe wedi cael llawer o fewnbwn gan CNC a Dinas a Sir Abertawe.

Simeon Jones, Cyngor Sir Gaerfyrddin

Roedd y Cais Plantlife WREN gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Weinyddiaeth Amddiffyn, CNC, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyngor Sir Gaerfyrddin yn rhoi sylw i dwyni Bae Caerfyrddin yn llwyddiannus. Mae'r cais yn amlinellu prosiect 248k dros gyfnod o 4 blynedd ar 4 safle ac mae'n cynnwys cael gwared ar helyg y môr a chonwydd o gynefin y twyni ym Mhembre, Whiteford a Phentywyn. Hefyd mae'r cais yn cynnwys darpariaeth ar gyfer arolygon hydrolegol a thopograffig, arolygon ar blanhigion ac anifeiliaid, seilwaith pori a rhywfaint o weithgarwch yn ailsefydlogi'r twyni ar rai safleoedd.

Alan Kearsely-Evans, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru

Crybwyllodd Alan y gwaith cael gwared ar gonwydd yn Whiteford, gan gynnwys tynnu'r bonion. Bydd Plantlife yn penodi swyddog prosiect ar gyfer y prosiect WREN a grybwyllir uchod. Bydd yn ofynnol i'r swyddog gael trwydded torri coed a gall hynny fod yn anodd oherwydd y targedau plannu coed cenedlaethol. Ymhlith y diweddariadau eraill mae prosiect unioni ac iawndal cost posib ar yr Afon Taf yn Sir Gaerfyrddin ac mae prosiect llethrau llystyfiant arfordirol Ceredigion wedi cyrraedd hanner ffordd yn fras.

Julie Creer, CNC.

Mae gan Heather Lewis (CNC/GEA) brosiect monitro NVC allan ar gontract yn Nhyddewi, Sir Benfro. Clogwyni Penllyn: prosiect Cyllid Natur yn parhau - yn cyllido gwaith cyfalaf i gael rheolaeth ar y pori a'r prysgwydd lle bo angen. Mae ymdrechion yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i dynnu sylw at ardaloedd eraill ble gellir gwella cysylltedd ar ac oddi ar y safleoedd dan warchodaeth. Mae gwybodaeth yn barod os gellir sicrhau rhagor o gyllid yn y dyfodol. Mae ardaloedd posib yng ngogledd Cymru wedi cael eu harchwilio ar gyfer ailunioni arfordirol. Mae *Frankenia laevis* (Grugeilun llyfn) yn blanhigyn brodorol yn nwyrain Lloegr ond yn gallu bod yn ymledol yng Nghymru. Mae contractau adfywio twyni tywod Cwninger Niwbwrch yn cael eu rheoli gyda chyfraniad gan Mike Howe ac mae rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud, ond rhai problemau o hyd. Mae prosiect arfordirol UK LIFE posib yn cael ei drafod a bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yng Nghynffig fwy na thebyg ym mis Medi.

Emmer Litt, CNC

Mae gwaith adfywio twyni wedi'i wneud ar safleoedd amrywiol yng Nghymru, fel y crybwyllwyd yn y diweddariadau blaenorol. Bydd y prosiect yn pwyso a mesur yn awr ac yn monitro'r canlyniadau. Mae Cwninger Niwbwrch yn dathlu'i phen blwydd yn 60 oed eleni ac mae digwyddiadau amrywiol yn mynd i gael eu cynnal. Bydd y gwaith o ychwanegu gro mân yn dechrau'n fuan ar Draeth Pensarn, safle magu pwysig i'r Forwennol Fach. Bydd cynllun y Rhaglen Creu Cynefin Genedlaethol (NHCP) yn cael ei roi ar waith ar Forfa Friog yn fuan ac mae Dinas a Sir Abertawe wedi rhyddhau canllaw ar gyfer Bae Abertawe, sy'n rhoi crynodeb o'r bae a sylw i

gynefinoedd a rhywogaethau arfordirol a morol. Bydd prosiect Natura 2000 Life yng Nghymru'n rhoi Cynllun Gweithredu Blaenoriaeth yn ei le ac yn datgan blaenoriaethau ar draws safleoedd N2K. Bydd croesgyfeirio pan dderbynnir ceisiadau cyllido.

Angus Garbutt, Y Ganolfan ar gyfer Ecoleg a Hydroleg

Mae prosiect CBESS yn weithredol. Prosiect £2.5m yn canolbwyntio ar gynefinoedd cors halen a fflatiau llaid sy'n darparu gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau. Arbrawf ym Mae Morecombe ac yn Essex ac arbrawf wedi'i gynllunio ar gyfer Cymru. Un o'r allbynnau fydd adnodd rhagweld yn cyfateb cymunedau NVC â nodweddion eraill, i ddarparu gwasanaethau ecosystemau. Bydd gweithdy yn yr hydref yn cyflwyno'r canfyddiadau hyd yma. Eto mae prosiect Arfordir Resil sy'n canolbwyntio ar gors halen yn casglu data hanesyddol a chyfoes er mwyn creu darlun o'r newid mewn cors halen dros gyfnod o amser. Bydd y prosiect yn integreiddio theori gydag elfennau ymarferol.

**4. Unrhyw Fater Arall**

Bydd cynhadledd ddeuddydd flynyddol PBC yn cael ei chynnal ar 9-10 Medi yn Aberystwyth. Anfonir y manylion at y grŵp pan fyddant ar gael.

**5. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Bydd y grŵp yn ceisio cyfarfod ym mis Tachwedd 2015.

**Ymweliad maes â Chwm Ivy**

Yng Nghwm Ivy, torrodd wal y môr yn naturiol yn ystod gaeaf 2013 / yn gynnar yn 2014 ac erbyn hyn mae'n rhan o'r ailunioni arfordirol dan reolaeth sy'n sefydlu ardal 40Ha o gors halen embryonig. Tanseiliodd cyfuniad o stormydd, glaw a chwydd llanwol y wal a datblygodd sianel, sydd wedi cynyddu gydag amser a bellach oddeutu 3m. Mae'n bur debyg mai hwn fydd y bwlch mwyaf yn y wal, nes bydd yn llithro i ffwrdd yn naturiol. Bydd y bwlch yn cael ei wahanu oddi wrth Ardal Cadwraeth Arbennig Cors Llanrhidian gyda ffensys i atal gorbori.

Yn fuan ar ôl i'r wal dorri, sefydlodd planhigion y gors, gan gynnwys morlwyau meddygol, *Salicornia*, troed yr ŵydd arfor, lafant y môr a chlustog Fair. Mae dyfrgwn wedi defnyddio'r gors halen sy'n datblygu ac mae cornchwiglod yn magu i'w gweld yma. Mae cynlluniau i godi llwyfan i weilch y pysgod yma yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd cynllun rheoli a threfn fonitro'n cael eu paratoi ar gyfer y safle. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gweithio gyda'r gymuned yn ystod y cyfnod hwn o newid ac wedi cael ymateb positif i raddau helaeth. Roedd wal y môr yn rhan o lwybr yr arfordir hefyd, sydd wedi cael ei ddargyfeirio yn awr.



Aelodau’r GEA yng Nghwm Ivy. Yr ardal i’r dde yw’r gors halen sy’n cael ei datblygu.



O’r chwith i’r dde: Wal y môr wedi torri. Datblygu cors halen ar ochr y tir (dde)



*Salicornia* a throed yr ŵydd arfor wedi sefydlu ar gors halen Cwm Ivy

Fideo o’r twll yn wal y môr yng Nghwm Ivy <https://www.youtube.com/watch?v=OFVXYnx_iEk>

Hoffai’r GEA ddiolch i’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru, ac Alan yn arbennig, am drefnu’r defnydd o’r llety yng Nghwm Ivy ac am arwain yr ymweliad maes.

## Camau Gweithredu

| Rhif | Camau Gweithredu | Pwy | Erbyn | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Prosiect Bylchau Tystiolaeth PBC | PAWB | Hydref 2015 | Holl aelodau'r GEA i adolygu'r wybodaeth am y bylchau tystiolaeth arfordirol, mireinio a blaenoriaethu bylchau a datgan bylchau newydd, fel sy'n briodol, gan ddefnyddio'r ffurflen gynnig ar wefan PBC. Pob diweddariad i gael eu hanfon ymlaen at Angus a Sean. Mae manylion am y bylchau tystiolaeth a chynigion y prosiect ar gael ar wefan PBC. Dolen: http://biodiversitywales.org.uk/en-GB/PBC-Evidence-Gaps-Project |
| 2 | Prosiect Bylchau Tystiolaeth PBC | Angus | Hydref 2015 | Angus i ymgyrchu dros gynrychiolydd academaidd arfordirol o Brifysgol Aberystwyth. |
| 3 | Dyfarniad Cyllid Prosiect LlC | Sean | Pan fydd ar gael | Manylion am gyllid y prosiect eto i gael eu cyhoeddi. Manylion am y rhai fydd yn derbyn cyllid craidd LlC newydd gael eu cyhoeddi. Dolen: http://gov.wales/newsroom/environmentandcountryside/2015/150529-22m-of-funding-for-environment-and-sustainable-development-organisations-in-wales/?lang=en |
| 4 | Creigafal | Julie | Pan fydd ar gael | Julie i rannu adroddiad y prosiect ar y Gogarth i gael gwared ar greigafal gyda'r GEA |
| | | | | |
| | | **Diweddariad – Camau Gweithredu Blaenorol** | | |
| | Meysydd blaenoriaeth y gro mân o lystyfiant ar yr arfordir | | Gohiriwyd | Bydd tîm arfordirol CNC yn rhoi hyn ar waith |
| | Trafodion y Gweithdy Twyni Tywod i fod ar gael | | Gohiriwyd | Nid yw'r trafodion yn derfynol nac wedi'u cyhoeddi eto. Am fonitro a holi am y rhain gydag ecolegwyr arfordirol CNC |
| | Integreiddio Mapiau Cynefinoedd Blaenoriaeth | | Gohiriwyd | Bydd tîm arfordirol CNC yn rhoi hyn ar waith |
| | Cynllun gwaith y GEA<br><br>Aelodaeth y GEA | Pawb | | Y GEA i adolygu'r Cynllun a thrafod yng nghyfarfod y gaeaf 2015<br><br>Heather a Julie i fireinio cynrychiolaeth CNC, y CGBLl ac aelodaeth LlC i gael ei adolygu gan Sean. Bydd Chris yn holi'r Ymddiriedolaethau Natur am ddirprwy gynrychiolydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Prosiect symud a hydroleg arfaethedig y twyni tywod yn Llangennith | EL | Parhaus | Bydd Emmer yn ymchwilio ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp yn y cyfarfod nesaf. |
| | Symposiwm Clogwyni'r Môr | | | Nid yw'r trafodion yn derfynol nac wedi'u cyhoeddi eto. Am fonitro a holi am y rhain. |
| | Cynhadledd Rheolaeth Integredig ar Dwyni Arfordirol | | | Nid yw'r trafodion yn derfynol nac wedi'u cyhoeddi eto. Am fonitro a holi am y rhain. |